Mae fy achos yn symud i'r cynllun cynhaliaeth plant a gyflwynwyd yn 2003 – beth fydd yn newid?

asiantaeth cynnal plant

Casglu gwybodaeth a chyfrifo

Am beth mae'r daflen hon yn sôn?

Gweithiwyd eich cynhaliaeth plant allan drwy ddefnyddio rheolau'r cynllun cynhaliaeth plant a gyflwynwyd yn 1993 (yr 'hen gynllun') oherwydd eich bod chi neu riant arall eich plentyn wedi gwneud cais am gynhaliaeth plant cyn 3 Mawrth 2003.

Rydym yn symud eich achos o'r hen gynllun i'r cynllun a gyflwynwyd ym Mawrth 2003. Gelwir hwn yn 'y cynllun presennol'.

Mae'r daflen hon yn egluro pam ein bod yn symud eich achos a sut rydym yn gweithio eich cynhaliaeth plant allan drwy ddefnyddio'r rheolau ar gyfer y cynllun presennol. Mae hefyd yn egluro sut gallai effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant rydych yn ei dalu neu'n ei gael ynghyd ag unrhyw drefniadau talu.

Am fwy o wybodaeth am y gwahanol gynlluniau ewch i **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**.

Yn y daflen hon defnyddiwn rai termau safonol i egluro ein gwasanaethau a sut rydym yn gweithio. Mae'r eirfa ar y diwedd yn egluro'r rhain.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob sefyllfa. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar 12 Ebrill 2010, ond efallai nad yw'n adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith neu ein gweithdrefnau ar ôl y dyddiad hwn. Efallai y byddwch am gael cyngor annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ariannol yn seiliedig ar y daflen hon.

Amdanom ni

Yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) yw gwasanaeth cynhaliaeth plant y Llywodraeth. Caiff ei ddarparu gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.

Ein rôl yw sicrhau bod rhieni sy'n byw ar wahân i'w plant yn cyfrannu'n ariannol at eu cadw drwy dalu cynhaliaeth plant.

Rydym yn defnyddio proses safonol i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd angen ei dalu ym mhob achos ac wedyn yn rheoli'r taliadau. Gallwn gymryd camau cyfreithiol i wneud yn siŵr bod y swm cywir yn cael ei dalu ar yr amser iawn.

Am fwy o help a gwybodaeth, ewch i'n gwefan **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk** neu ffoniwch ni ar **0845 713 3133** neu **0845 713 8924** (ffôn testun). Neu gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091**. Ewch i dudalen 35 am fanylion am gostau galwadau ac amseroedd agor.

Os ydych am wneud trefniadau preifat ar gyfer cynhaliaeth plant, yn hytrach na drwy'r CSA, cysylltwch ag Opsiynau Cynhaliaeth Plant am wybodaeth ddiduedd a chymorth. Ewch i'w gwefan yn **www.cmoptions.org** neu gallwch eu ffonio ar **0800 988 0988** neu **0800 988 9888** (ffôn testun). Gallwch ofyn am gael siarad Cymraeg.

Cynnwys

Pam fod fy nghynhaliaeth plant yn newid? 6

Beth fydd yn digwydd pan symudir fy achos? 8

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sydd raid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt? 9

Sut mae'r cynllun presennol yn wahanol? 11

Sut mae'r CSA yn gweithio cynhaliaeth plant allan drwy ddefnyddio rheolau'r cynllun presennol? 13

Beth fydd yn digwydd os oes gan y rhiant dibreswyl blant eraill yn byw gyda hwy? 20

Beth yw rhannu gofal a sut mae'n effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant? 21

Sut bydd symud i'r cynllun presennol yn effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant rwy'n ei dalu neu'n ei gael? 25

A fydd rhaid i mi newid fy nhrefniadau talu? 29

Sut mae'r cynllun presennol yn effeithio ar rieni â gofal sydd ar fudd-daliadau? 31

Beth fydd yn digwydd i'r 'cyfarwyddiadau gwyro'? 32

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth? 34

Pam bod fy nghynhaliaeth plant yn newid?

Mae'ch cynhaliaeth plant wedi ei gweithio allan yn bresennol drwy ddefnyddio rheolau'r hyn a alwn yn 'hen gynllun'.

O **3 Mawrth 2003** newidiwyd y ffordd rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan ar gyfer ceisiadau newydd i'w gwneud yn syml i'w rheoli, haws i'w deall ac i weddu'n well i anghenion rhieni. Galwn hyn yn gynllun presennol.

Ni wnaeth y cynllun presennol newid:

- pwy sy'n gymwys am gynhaliaeth plant
- sut mae'n rhaid talu cynhaliaeth plant, na
- pa bwerau sydd gennym i orfodi taliadau.

Os bydd achos a gafodd ei sefydlu ar yr hen gynllun yn dod **ynghlwm** â chais newydd am gynhaliaeth plant a wnaethpwyd ar neu ar ôl 3 Mawrth 2003, rhaid i ni symud yr achos hwnnw i'r cynllun presennol.

Pam gall achos fod 'ynghlwm'?

Bydd achosion yn dod ynghlwm â'i gilydd dim ond os daw cais newydd i ni drefnu cynhaliaeth plant sy'n effeithio ar y rhiant â gofal neu'r rhiant dibreswyl mewn achos sydd eisoes ar yr hen gynllun. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r un rheolau ar gyfer gweithio allan cynhaliaeth plant ar gyfer pob plentyn mewn achosion sydd wedi eu clymu, felly mae'n rhaid i ni symud achosion yr hen gynllun i'r cynllun presennol.

Er enghraifft, byddwn yn symud eich achos i'r cynllun newydd os:

- rydych yn rhiant â gofal sy'n derbyn cynhaliaeth plant am un plentyn yn barod, ac
- rydych wedi gwneud cais newydd am blentyn arall ar neu ar ôl **3 Mawrth 2003**, ac
- mae gan y plentyn hwnnw riant dibreswyl **gwahanol** i'r plentyn rydych yn derbyn cynhaliaeth plant ar eu cyfer yn barod.

Mae'n rhaid i ni weithio cynhaliaeth plant allan ar gyfer y ddau blentyn drwy ddefnyddio'r un rheolau, er bod gwahanol rieni dibreswyl yn gysylltiedig â'r achos.

Golyga hyn y bydd rhaid symud yr achos cynhaliaeth plant cyntaf o'r hen gynllun i'r cynllun presennol.

Enghraifft arall o bryd byddwn yn trosglwyddo achosion cynhaliaeth plant i'r cynllun presennol yw os:

- ydych yn rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant o dan yr hen gynllun, ac
- mae gennych blentyn gyda pherson arall, ac
- mae'r person hwnnw wedi gwneud cais am gynhaliaeth plant drwom ni.

Mae'n rhaid i ni symud eich achos i'r cynllun presennol oherwydd:

- mae gan eich plant wahanol rieni â gofal, ac
- mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r un rheolau ar y ddau achos i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd rhaid i chi ei dalu am yr holl blant yn y ddau achos.

Beth fydd yn digwydd pan symudir fy achos?

Pan fydd eich achos yn symud i'r cynllun presennol, byddwn yn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylid ei dalu i'r rhiant â gofal, gan ddefnyddio rheolau'r cynllun presennol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu y bydd y taliadau naill ai'n codi neu ddisgyn.

Cyn belled ag y gallwn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym yn barod i weithio'r swm newydd o gynhaliaeth plant allan. Byddwn yn gofyn i chi am unrhyw beth arall sydd ei angen arnom. Byddwn wedyn yn ysgrifennu at y ddau riant, yn dweud wrthych beth yw'r swm newydd a pha wybodaeth rydym wedi'i defnyddio i weithio hyn allan.

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sydd raid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt?

Os bydd amgylchiadau'r naill riant neu'r llall yn newid, gall olygu y bydd angen i ni newid y swm o gynhaliaeth a ddylid ei thalu. Felly, dylech ddweud wrthym os oes newid i unrhyw wybodaeth a roddoch i ni i weithio cynhaliaeth plant allan, fel faint o incwm mae'r rhiant dibreswyl yn ei gael.

Yn benodol, os ydych yn rhiant dibreswyl, **rhaid** i chi ddweud wrthym os:

- oes newid i'ch cyfeiriad (mae'n **rhaid** i chi ddweud wrthym o fewn 7 diwrnod o'r dyddiad pan newidiodd eich cyfeiriad)
- ydych yn talu eich cynhaliaeth plant trwy orchymyn didynnu o enillion ac rydych yn gadael eich swydd. Mae'n **rhaid** i chi ddweud wrthym:
  - enw a chyfeiriad eich cyflogwr newydd (os oes gennych un)
  - faint rydych yn disgwyl ennill, ac
  - eich rhif cyflogres neu rif gwaith (os oes gennych un).

Os ydych yn rhiant â gofal, mae'n **rhaid** i chi ddweud wrthym os oes newid i'r:

- nifer o blant sydd yn byw gyda chi y mae'n rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer, neu'r
- nifer o nosweithiau y mae'r plentyn yn aros dros nos yn rheolaidd gyda'r rhiant dibreswyl.

Os byddwch yn methu â darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, neu'n rhoi gwybodaeth i ni rydych yn gwybod sydd yn ffug, gallwn fynd â chi i'r llys a gallwch gael dirwy o hyd at £1000. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw berson neu sefydliad sydd raid iddynt, yn ôl y gyfraith, roi gwybodaeth i ni – fel cyflogwyr a chyfrifwyr yn ogystal â rhieni.

Ni fydd pob newid mewn amgylchiadau yn golygu y bydd rhaid i ni newid y swm o gynhaliaeth plant sydd angen cael ei thalu. Efallai na fyddwn yn newid swm y gynhaliaeth plant os na fydd incwm rheolaidd wythnosol net y rhiant dibreswyl yn newid mwy na 5%.

Sut mae'r cynllun presennol yn wahanol?

Cynlluniwyd y cynllun presennol i fod yn symlach i'w reoli, yn haws i'w ddeall ac yn fwy addas ar gyfer anghenion rhieni.

Y gwahaniaeth pwysicaf rhwng yr hen gynllun a'r cynllun presennol yw sut rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan. Ar gyfer y cynllun presennol defnyddiwn system o gyfraddau sy'n seiliedig ar **incwm wythnosol net** y rhiant dibreswyl. Y pedair cyfradd yw:

- cyfradd sylfaenol (os oes ganddynt incwm o £200 yr wythnos neu fwy)
- cyfradd is (os oes ganddynt incwm o fwy na £100 ond llai na £200 yr wythnos)
- cyfradd unffurf, (os oes ganddynt incwm o rhwng £5 a £100 yr wythnos), a
- cyfradd sero (os oes ganddynt incwm o lai na £5 yr wythnos).

Am fwy o wybodaeth am y cyfraddau a ddefnyddiwn, ewch i dudalen 15.

Rhestrir isod wahaniaethau eraill rhwng yr hen gynllun a'r cynllun presennol.

- Mae'r ffordd rydym yn gweithio incwm net rhiant dibreswyl allan yn symlach.
- Os yw'r plentyn y mae'r rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer yn aros gyda hwy am o leiaf 52 noson y flwyddyn, bydd y rhiant dibreswyl yn talu llai. Gelwir hyn yn rhannu gofal (ewch i dudalen 21).
- Os bydd y rhiant dibreswyl yn talu cyfradd unffurf oherwydd eu bod yn cael budd-daliadau, ac mae'r plentyn maent yn talu cynhaliaeth plant ar eu gyfer yn aros gyda hwy am o leiaf 52 noson y flwyddyn, ni fydd yn rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu unrhyw gynhaliaeth plant.
- Nid ydym bellach yn ystyried costau tai na chostau teithio i'r gwaith y naill riant na'r llall.
- Yn hytrach na defnyddio 'gwyriadau' o'r asesiad sylfaenol, gallwn bellach addasu'r swm o gynhaliaeth plant y dylid ei dalu os oes ffactorau penodol eraill y mae'r naill riant neu'r llall yn teimlo y dylem eu hystyried. Gelwir hyn yn 'amrywiad'.
- Os na fydd rhiant yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio cynhaliaeth plant allan, byddwn yn defnyddio penderfyniad cynhaliaeth ddiffyg i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd angen ei dalu. Mae hyn yn disodli'r asesiad cynhaliaeth dros dro.

Sut mae'r CSA yn gweithio cynhaliaeth plant allan drwy ddefnyddio rheolau'r cynllun presennol?

Rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan drwy gymhwyso un o'n 4 cyfradd i 'incwm wythnosol net' y rhiant dibreswyl. Mae incwm yn golygu enillion, arian o bensiwn galwedigaethol neu bersonol, budd-daliadau penodol ac – mewn amgylchiadau penodol – credydau treth. Incwm wythnosol net yw'r swm o incwm sydd ar ôl gennych ar ôl didynnu pethau fel treth incwm, Yswiriant Gwladol a chyfraniadau i gynllun pensiwn. Os yw'r cynllun pensiwn wedi'i sefydlu i dalu morgais, dim ond 75% o'r arian a delir i mewn i'r cynllun y gellir ei ddidynnu oddi ar eich enillion gros (cyfanswm). Felly, bydd eich incwm wythnosol net yn cynnwys 25% o unrhyw gyfraniadau pensiwn sy'n gysylltiedig â morgais.

Y 4 cyfradd y gallwn eu cymhwyso i incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yw:

- cyfradd sylfaenol (os oes ganddynt incwm net o £200 yr wythnos neu fwy) – ewch i dudalen 16
- cyfradd is (os oes ganddynt incwm net o fwy na £100 ond llai na £200 yr wythnos) – ewch i dudalen 17
- cyfradd unffurf (os oes ganddynt incwm net o rhwng £5 a £100 yr wythnos) – ewch i dudalen 18
- cyfradd sero (os oes ganddynt incwm net o lai na £5 yr wythnos) – ewch i dudalen 19.

Gall ffactorau eraill, fel p'un a yw'r rhiant dibreswyl, neu eu partner, yn cael budd-daliadau penodol gael effaith ar ba gyfradd sy'n gymwys hefyd.

Gallwn addasu'r gynhaliaeth plant, yn ddibynnol ar:

- y nifer o blant eraill sy'n byw gyda'r rhiant dibreswyl, y maent hwy neu eu partner yn cael Budd-dal Plant ar eu cyfer (taliad rheolaidd a wneir i unrhyw un sy'n magu plant)
- y nifer o blant sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer, ac
- os yw'r plentyn yn aros gyda'r rhiant dibreswyl o leiaf un noson bob wythnos.

Nid ydym yn defnyddio incwm y rhiant â gofal i helpu i weithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylai'r rhiant dibreswyl ei dalu.

Yr uchafswm o incwm wythnosol net y gallwn ei ddefnyddio i weithio cynhaliaeth plant allan yw £2,000. Os bydd incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yn fwy na £2,000, gall y rhiant â gofal wneud cais i'r llys am gynhaliaeth ychwanegol.

Cyfradd sylfaenol

Os oes gan y rhiant dibreswyl incwm wythnosol net (ar ôl didyniadau) o £200 neu fwy, rydym yn defnyddio'r gyfradd sylfaenol i weithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylent ei dalu. Mae'r swm yn ddibynnol ar faint o blant sydd raid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth ar eu cyfer:

- un plentyn, bydd yn rhaid iddynt dalu 15% o'u hincwm wythnosol net
- dau blentyn, bydd yn rhaid iddynt dalu 20% o'u hincwm wythnosol net, neu
- tri phlentyn neu fwy, bydd yn rhaid iddynt dalu 25% o'u hincwm wythnosol net.

Os yw'r plentyn y mae'r rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer yn aros dros nos gyda hwy, gallai hyn effeithio ar y gynhaliaeth plant sy'n rhaid iddynt ei thalu. Ewch i dudalen 21 am fwy o wybodaeth.

Cyfradd is

Os bydd incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yn fwy na £100 yr wythnos, ond yn llai na £200, rydym yn defnyddio'r gyfradd is i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid iddynt ei dalu.

Mae'r rhiant dibreswyl yn talu:

- swm safonol o £5, a
- canran o'u hincwm wythnosol dros £100.

Y nifer o blant mae angen cynhaliaeth plant ar eu cyfer	**Swm safonol**	**Canran o incwm dros £100 yr wythnos ond yn llai na £200, mae rhiant dibreswyl yn ei dalu**
1	£5, a	25%
2	£5, a	35%
3	£5, a	45%

Gall y canrannau hyn newid os oes gan y rhiant dibreswyl blant eraill yn byw gyda hwy.

Os yw'r plentyn y mae'r rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer yn aros dros nos gyda hwy, gallai effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid iddynt ei dalu. Ewch i dudalen 21 am fwy o wybodaeth.

Cyfradd unffurf

Y gyfradd unffurf yw £5 – waeth faint o blant sy'n ymwneud â'r achos.

Bydd y rhiant dibreswyl yn talu cyfradd unffurf ar gyfer cynhaliaeth plant os:

- bydd eu hincwm wythnosol net, rhwng £5 a £100, neu
- byddant hwy neu eu partner sy'n byw gyda hwy yn cael budd-dal yn ymwneud ag incwm (Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm) neu Gredyd Pensiwn, neu
- maent yn cael budd-daliadau penodol, fel:
  - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
  - Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth
  - Budd-dal Analluogrwydd
  - Lwfans Hyfforddi
  - Taliadau Cynllun lawndal y Lluoedd Arfog
  - Pensiwn Rhyfel
  - Lwfans Profedigaeth.

Os bydd y rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael budd-dal yn ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn, byddwn fel arfer yn cymryd y gynhaliaeth plant yn uniongyrchol o'u budd-dal neu eu Credyd Pensiwn cyn y caiff ei dalu. Mae hyn yn golygu y bydd y rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael swm llai o fudd-dal.

Cyfradd sero

Mewn rhai amgylchiadau, nid oes rhaid i rieni dibreswyl dalu unrhyw gynhaliaeth plant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- os oes ganddynt incwm o lai na £5 yr wythnos
- os ydynt yn fyfyrwyr sydd mewn addysg llawn amser (yn dilyn cwrs mewn ysgol neu goleg cydnabyddedig lle maent yn cael o leiaf 12 awr o hyfforddiant yr wythnos)
- os ydynt o dan 16 oed (ac sydd felly, at ddibenion cynhaliaeth plant, yn blant eu hunain)
- os ydynt yn y carchar, neu
- os ydynt yn byw mewn cartref gofal neu ysbyty annibynnol (neu wasanaethau cyfatebol yn yr Alban), ac yn cael help gyda'r ffioedd.

Os ydych eisiau mwy o wybodaeth am sut rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan, darllenwch ein taflen *Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?* (CSL303W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

Beth fydd yn digwydd os oes gan y rhiant dibreswyl blant eraill yn byw gyda hwy?

Os yw'r rhiant dibreswyl neu eu partner yn cael Budd-dal Plant am blant eraill sy'n byw gyda hwy, a'u bod yn talu naill ai'r gyfradd sylfaenol neu'r gyfradd is o gynhaliaeth plant, maent fel arfer yn talu llai o gynhaliaeth plant. Mae hyn oherwydd eu bod hefyd angen talu am ofal y plant eraill sy'n byw gyda hwy. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gweithio allan y swm o gynhaliaeth y mae'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu yn seiliedig ar ran o'u hincwm wythnosol net, yn hytrach na'r incwm wythnosol net i gyd.

Os ydych eisiau gwybod mwy am sut rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan o dan y cynllun presennol, darllenwch *Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?* (CSL303W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

Beth yw rhannu gofal a sut mae'n effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant?

O dan y cynllun presennol, gallwn ostwng y swm o gynhaliaeth plant wythnosol sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu os:

- bydd y plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl am o leiaf un noson yr wythnos ar gyfartaledd, neu o leiaf 52 noson y flwyddyn, ac
- rydym yn defnyddio'r **gyfradd sylfaenol neu'r gyfradd is** i weithio allan y taliad wythnosol o gynhaliaeth plant.

Mae hyn yn disodli trefniadau lle'r oedd yn rhaid i riant dibreswyl ddarparu gofal am o leiaf 104 noson y flwyddyn i fod yn gymwys i gael unrhyw ostyngiad i'r gynhaliaeth plant.

Os byddwch yn rhannu gofal eich plentyn gyda'r rhiant arall, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon pan fyddwn yn gweithio allan y swm newydd o gynhaliaeth plant. Rydym angen gwybod faint o nosweithiau mae'r plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl pob wythnos ar gyfartaledd.

Ble mae rhieni yn rhannu gofal eu plant, rydym yn gweithio allan y swm dyddiol o gynhaliaeth plant (fel arfer un rhan o saith o'r swm wythnosol sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu). Er enghraifft, os bydd rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant o £70 yr wythnos, mae hyn yn gweithio allan fel swm dyddiol o £10 (£70 wedi ei rannu â 7).

Rydym wedyn yn gwneud gostyngiad am y swm hwn i'r swm wythnosol o gynhaliaeth plant am bob diwrnod mae'r plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut mae hyn yn gweithio.

Enghraifft

Mae gan Gary a Jane 2 o blant. Mae'n rhaid i Gary dalu cynhaliaeth plant wythnosol o £70.

Y swm dyddiol o gynhaliaeth plant yw
£70 ÷ 7 £10

Mae ei blant yn aros gydag ef am 2 noson yr wythnos
£10 x 2 £20

Gellir gwneud gostyngiad o £20 yr wythnos i'r gynhaliaeth plant
£70 – £20 £50

Golyga hyn bod Gary yn gorfod talu cynhaliaeth plant o **£50** yr wythnos.

Os yw gofal plentyn yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng dau riant, byddwn yn:

- rhannu'r swm wythnosol o gynhaliaeth gyda dau, a
- gostwng y gynhaliaeth plant eto gan dynnu £7 arall yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae'r swm o £7 wedi'i osod yn y gyfraith.

Yn yr amgylchiadau hyn, y rhiant â gofal yw'r rhiant sy'n derbyn Budd-dal Plant.

Enghraifft

Mae Gary a Jane yn newid eu trefniadau ac yn penderfynu rhannu'r gofal am eu 2 o blant yn gyfartal.

Mae swm y gynhaliaeth reolaidd yn parhau i fod yn £70.
£70 ÷ 2 £35

Didynnir £7 am bob plentyn £14

Cyfanswm y gostyngiad y gallwn ei wneud i'r swm wythnosol yw:
£35 + £14 £49

Didynnir hwn o'r gynhaliaeth plant wythnosol
£70 – £49 £21

Golyga hyn bod rhaid i Gary dalu cynhaliaeth plant o **£21** yr wythnos.

Fodd bynnag, ni all cynhaliaeth plant mewn achosion cyfradd sylfaenol na chyfradd is ostwng o dan £5 o ganlyniad i addasiadau ar gyfer rhannu gofal.

Cyfradd unffurf

Os bydd cynhaliaeth plant wedi'i gosod ar gyfradd unffurf oherwydd bod y rhiant dibreswyl yn cael budd-dal, pensiwn neu lwfans, ac mae'r rhiant dibreswyl yn rhannu gofal y plentyn am o leiaf 52 noson y flwyddyn, bydd hyn yn gostwng y swm sydd raid iddynt ei dalu i ddim.

Sut bydd symud i'r cynllun presennol yn effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant rydw i'n ei dalu neu'n ei gael?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y swm o gynhaliaeth plant yn newid. Gallai taliadau fod yn uwch neu'n is. Byddwn yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r taliadau yn raddol, mewn camau blynyddol sefydlog, fel bod gan y ddau riant amser i addasu i'r newid yn eu sefyllfa ariannol. Rydym yn galw hyn yn 'cyflwyno fesul cam'.

Bydd pa mor raddol y byddwn yn cyflwyno'r camau hyn yn dibynnu ar beth yw incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl pan fyddwn yn symud achos i'r cynllun presennol. Bydd taliadau naill ai'n cynyddu neu'n gostwng bob blwyddyn yn y camau canlynol:

- £2.50 yr wythnos os bydd incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yn £100 neu lai.
- £5 yr wythnos os bydd incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yn fwy na £100, ond yn llai na £400.
- £10 yr wythnos os bydd incwm wythnosol net y rhiant dibreswyl yn £400 neu fwy.

Os mai dim ond gwahaniaeth bach sydd i'r swm cynhaliaeth plant newydd, a bod y newid yn gweithio allan yn llai na'r swm wrth gyflwyno fesul cam, bydd yn rhaid i'r rhiant dibreswyl ddechrau talu'r swm newydd ar unwaith.

Bydd cyflwyno fesul cam yn parhau am hyd at 5 mlynedd, neu hyd nes y cyrhaeddir y swm newydd os bydd hyn yn gynt. Edrychwch ar yr enghraifft isod.

Enghraifft

Ar hyn o bryd, mae Andrew yn talu £75 yr wythnos o gynhaliaeth plant ar gyfer ei 3 phlentyn.

Mae ei incwm wythnosol net o £250 yn golygu pan fydd ei achos yn newid drosodd i'r cynllun presennol, y bydd ei gynhaliaeth plant yn gostwng i £63 yr wythnos.

Ni fydd Andrew yn talu'r swm newydd o gynhaliaeth plant ar unwaith. Yn hytrach, bydd y swm newydd yn cael ei 'gyflwyno fesul camau' o £5. Mae hyn yn golygu y bydd taliad cynhaliaeth plant Andrew yn gostwng £5 yr wythnos bob blwyddyn hyd nes y bydd yn cyrraedd y swm newydd.

- Yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn y newid, bydd Andrew yn talu £70 yr wythnos (£75 llai £5).
- Yn yr ail flwyddyn yn dilyn y newid, bydd Andrew yn talu £65 yr wythnos (£70 llai £5).
- Yn y drydedd flwyddyn yn dilyn y newid, bydd Andrew yn cyrraedd y swm y dylai ei dalu sef £63 yr wythnos.

A oes unrhyw eithriadau i'r rheolau cyflwyno fesul cam hyn?

Oes. Os yw rhiant dibreswyl yn cael budd-daliadau yn seiliedig ar incwm ar hyn o bryd, o dan yr hen gynllun, rydym yn eu hasesu fel bod ganddynt ddim i'w dalu ond efallai eu bod yn talu cyfraniad gofynnol tuag at gynhaliaeth plant. Ar ôl trosglwyddo i'r cynllun presennol, efallai y bydd yn rhaid iddynt dalu'r gyfradd unffurf o £5 bob wythnos.

Oherwydd bod hyn yn llai na'r cyfraniad gofynnol safonol, bydd y taliad newydd o £5 bob wythnos yn dod yn gymwys ar unwaith, ac ni fydd unrhyw gyflwyno fesul cam.

Os yw'r rhiant dibreswyl yn cael ei asesu o dan yr hen gynllun ar hyn o bryd fel rhywun nad oes ganddynt ddim i'w dalu ac nad oes rhaid iddynt dalu cyfraniad gofynnol safonol, gallwn benderfynu bod yn rhaid iddynt dalu'r gyfradd unffurf o £5 o dan y cynllun presennol. Ond gan nad ydynt wedi talu unrhyw arian hyd yn hyn, byddwn yn cyflwyno'r taliad £5 fesul cam. Felly bydd y rhiant dibreswyl yn talu £2.50 yr wythnos am y 12 mis cyntaf, yna £5 bob wythnos ar ôl y flwyddyn gyntaf hon.

Ni fydd yn rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu unrhyw beth o dan y cynllun presennol os ydym yn penderfynu y dylent fod yn talu'r gyfradd unffurf, ond maent yn rhannu gofal eu plant. Bydd yr eithriad hwn yn gymwys ar unwaith.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy amgylchiadau yn newid yn ystod y cyfnod cyflwyno fesul cam?

Dywedwch wrthym os, yn ystod y cyfnod cyflwyno fesul cam, bydd newid i unrhyw wybodaeth rydym wedi ei defnyddio i weithio cynhaliaeth plant allan. Er enghraifft, dylech ddweud wrthym os bydd eich enillion yn newid yn ystod y cyfnod cyflwyno fesul cam. Byddwn yn gweithio'r swm cyflwyno fesul cam allan eto.

Gallai hyn olygu bod yn rhaid i'r rhiant dibreswyl ddechrau talu'r swm newydd o gynhaliaeth plant yn gyflymach. Mae hyn oherwydd byddwn yn ei gyflwyno fesul cam dros weddill y cyfnod cyflwyno fesul cam o 5 mlynedd. Er enghraifft, os yw'r newid mewn amgylchiadau yn digwydd ar ôl 3 blynedd o'r cyfnod cyflwyno fesul cam, bydd y swm newydd yn cael ei gyflwyno fesul cam dros y 2 flynedd sy'n weddill.

Os bydd hyn yn digwydd i chi ac yr hoffech gael mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn, dylech gysylltu â ni. Gallwch ffonio'r rhif ffôn neu ysgrifennu i'r cyfeiriad a ddangosir yn y gornel dde ar ben y llythyr olaf a anfonwyd atoch. Dylech sicrhau bod gennych eich rhif cyfeirnod wrth law pan fyddwch yn ffonio neu rhowch y rhif hwn yn eich llythyr.

A fydd rhaid i mi newid fy nhrefniadau talu?

Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn argymell cadw'r un trefniadau talu a dim ond newid y swm rydych yn ei dalu.

Ond weithiau, gall hyn fod yn gyfle da i symleiddio eich trefniadau talu.

Y ffordd hwylusaf i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant yw yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal. Gellir gwneud hyn drwy archeb sefydlog, sydd yn golygu bod y rhiant dibreswyl yn sefydlu taliad rheolaidd yn uniongyrchol o'u cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu i gyfrif y rhiant â gofal.

Os nad yw rhieni am dalu yn y ffordd hon, rhaid i'r taliadau gael eu gwneud trwom ni. Yn y sefyllfa hon:

- os yw'r rhiant dibreswyl yn **gyflogedig**, fel arfer rydym yn gofyn iddynt dalu trwy ddebyd uniongyrchol, neu yn cytuno â hwy ein bod ni yn cymryd yr arian yn uniongyrchol o'u henillion drwy ddefnyddio gorchymyn didynnu o enillion
- os yw'r rhiant dibreswyl yn **hunangyflogedig**, fel arfer rydym yn gofyn iddynt sefydlu debyd uniongyrchol i'n talu ni
- os yw'r rhiant dibreswyl yn **cael budd-dal yn ymwneud ag incwm**, fel arfer rydym yn cymryd arian yn uniongyrchol o'u budd-daliadau cyn iddynt eu cael.

Os hoffech newid eich trefniadau talu, cysylltwch â ni i drafod yr opsiynau. Gallwch ffonio'r rhif ffôn neu ysgrifennu i'r cyfeiriad a ddangosir yn y gornel dde ar ben y llythyr olaf a anfonwyd atoch. Dylech sicrhau bod gennych eich rhif cyfeirnod wrth law pan fyddwch yn ffonio neu rhowch y rhif hwn yn eich llythyr.

Sut mae'r cynllun presennol yn effeithio ar rieni â gofal sydd ar fudd-daliadau?

Yn y gorffennol, os oedd y rhiant â gofal neu eu partner yn cael budd-daliadau yn ymwneud ag incwm neu Gredyd Pensiwn ac yn cael cynhaliaeth plant, **efallai** na fyddai'r rhiant â gofal wedi cael swm llawn eu budd-dal. Fodd bynnag, ers Ebrill 2010 nid yw swm y gynhaliaeth plant mae'r rhiant â gofal yn ei gael yn effeithio ar eu budd-daliadau o gwbl.

Beth fydd yn digwydd i'r 'cyfarwyddiadau gwyro'?

O dan yr hen gynllun, roedd cyfarwyddiadau gwyro yn ein caniatáu i ystyried rhai ffactorau penodol eraill nad oeddent wedi eu cynnwys yn y fformiwla asesu safonol wrth weithio'r gynhaliaeth plant allan. Roedd hyn yn newid y swm o gynhaliaeth plant roeddech yn ei dalu neu'n ei gael.

Mae gan y cynllun presennol reolau gwahanol ynglŷn â pha ffactorau y byddwn yn eu hystyried pan fyddwn yn gweithio cynhaliaeth plant allan. Gelwir y rheolau hyn yn '**amrywiadau**' yn lle cyfarwyddiadau gwyro.

Mae amrywiadau yn ystyried nifer o'r un amgylchiadau â'r hen gyfarwyddiadau gwyro. Pan fo'r ffactorau'r un fath o dan y rheolau ar gyfer y ddau gynllun, byddwn yn eu dwyn ymlaen i'r cynllun presennol ac ni fyddwn yn eu newid. Fodd bynnag, mae gennym reolau a therfynau newydd, a bellach, nid oes hawl gennym ystyried rhai ffactorau – fel costau teithio i'r gwaith. Bydd y cyfarwyddiadau gwyro a roddir am y rhain yn diweddu. Byddwn yn dweud wrthych y cyfrifiad newydd a byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gyfarwyddiadau gwyro neu amrywiadau sydd yn gymwys i chi.

Os ydych eisiau gwybod mwy am ba ffactorau eraill byddwn yn eu hystyried yn y cynllun presennol, darllenwch ein taflen *Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?* (CSL303W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

Beth sy'n digwydd i lwfans ar gyfer setliad neu drosglwyddiad o eiddo neu gyfalaf?

Os gweithiwyd allan y swm presennol o gynhaliaeth plant y mae'n rhaid i riant dibreswyl ei dalu o dan yr hen gynllun gan ddefnyddio lwfans ar gyfer setliad eiddo a wnaed cyn 5 Ebrill 1993, byddwn yn dal i ystyried hyn pan fyddwn yn gweithio'r swm newydd o gynhaliaeth plant allan.

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth?

Os ydych eisiau gwybod mwy am gynhaliaeth plant a sut rydym yn ei gweithio allan, ewch i'n gwefan yn **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**. Gallwch lawr-lwytho ein taflenni o'r wefan a hefyd gweld faint allai cynhaliaeth plant fod o dan y cynllun presennol yn eich sefyllfa chi, drwy ddefnyddio ein cyfrifydd ar-lein. Canllaw yn unig yw'r cyfrifydd, ac ni fyddwn yn cadw unrhyw wybodaeth a roddwch wrth ei ddefnyddio.

Os byddwch am siarad gyda rhywun am eich achos, dylech ffonio'r rhif ar ochr dde top y llythyr diwethaf a dderbynioch gennym. Hwn yw rhif y swyddfa sy'n delio â'ch achos. Neu, gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** sydd ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os nad oes gennych achos gyda ni neu os na allwch ddod o hyd i lythyr diweddar, gallwch ffonio'n llinell gymorth genedlaethol. Ni fydd gan y person sy'n cymryd yr alwad eich manylion personol ac felly ni allant ateb cwestiynau penodol am eich achos. Fodd bynnag, gallant eich helpu gydag unrhyw beth cyffredinol sy'n ymwneud â chynhaliaeth plant. Gallant hefyd roi rhif ffôn y swyddfa sy'n delio â'ch achos os byddwch am ofyn cwestiynau penodol.

Gallwch ffonio'r llinell gymorth genedlaethol ar **0845 713 3133** o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn. Neu, gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091** sydd ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Sichrhewch fod eich Rhif Yswiriant Gwladol wrth law pan fyddwch yn ffonio.

Efallai y caiff rhai galwadau eu recordio er mwyn i ni gadw golwg ar ein gwasanaethau a hyfforddi staff.

Gwasanaethau ffôn testun

Os oes gennych anawsterau gyda siarad neu glywed, mae gwasanaeth ffôn testun ar gael ar **0845 713 8924**. Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg ar ffôn testun hefyd – y rhif yw **0845 713 8099**.

Mae ffôn testun ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd i siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. **Nid** yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

Ieithoedd eraill

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu un a ddarperir gennym ni.

Costau ffonio

Ni ddylai galwadau o linellau daear BT i rifau **0845** gostio mwy na 4c y munud. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor. Gall galwadau o ffôn symudol gostio hyd at 40c y munud, felly dylech gysylltu â darparwr eich gwasanaeth i gael gwybod faint yw cost y galwadau hyn.

Gwybodaeth ar ffurfiau eraill

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn Braille ac ar dâp sain. Gallwch gael gwybodaeth ar y ffurfiau hyn ar-lein neu drwy gysylltu â'n llinellau cymorth.

Mae gennym hefyd fersiynau print bras o'r daflen hon sydd ar gael i chi ei lawr-lwytho o'n gwefan, sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**.

Mae fy achos yn symud i'r cynllun cynhaliaeth plant a gyflwynwyd yn 2003 – beth fydd yn newid?

Sut gall achos cynhaliaeth plant symud yn ei flaen

Mae'r diagram hwn yn dangos sut y gall achos cynhaliaeth plant symud yn ei flaen. Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar ran o'r broses a amlygir yma.

Gwybodaeth a chyfarwyddyd

Gall y CSA ddarparu gwybodaeth am sut mae'r broses yn gweithio, beth fydd angen i rieni ei wneud a beth allai fod yn swm derbyniol o gynhaliaeth yn eu hachos hwy.

Gwneud cais

Bydd achos yn cychwyn yn swyddogol pan fydd rhiant yn gwneud cais i ni drefnu taliadau cynhaliaeth plant.

Os bydd newid ym mywyd y naill riant neu'r llall, gall hyn effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant sydd raid ei dalu, gallwn ail edrych ar eich achos – felly rhowch wybod i ni.

Casglu gwybodaeth a chyfrifo

Er mwyn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylid ei dalu, mae'n angenrheidiol i ni gasglu gwybodaeth bwysig. Byddwn yn gofyn i'r ddau riant ddarparu gwybodaeth benodol. Pan fyddwn wedi cael hyn, byddwn yn gweithio'r gynhaliaeth plant allan.

Talu

Bydd y rhiant dibreswyl yn talu'r swm a gytunwyd ar y dyddiad y cytunwyd ac yn y ffordd a gytunwyd. Gall hyn fod yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal, neu i ni. Byddwn wedyn yn pasio'r taliadau ymlaen.

Gorfodi

Os na wneir taliadau ar amser, gallwn gymryd camau i orfodi taliadau.

Ein taflenni

Beth yw cynhaliaeth plant a sut mae'n effeithio arnaf i?
(Cyfeirnod: CSL301W) I bob rhiant

Sut gallaf gwyno am y gwasanaeth a gaf gan yr Asiantaeth Cynnal Plant?
(Cyfeirnod: CSL308W) I bob rhiant

Sut caiff cynhaliaeth plant ei gweithio allan?
(Cyfeirnod: CSL303W) I bob rhiant

Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn gwadu bod yn rhiant i blentyn?
(Cyfeirnod: CSL304W) I bob rhiant

Sut gallaf apelio yn erbyn penderfyniad cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL307W) I bob rhiant

Mae fy achos yn symud i'r cynllun cynhaliaeth plant a gyflwynwyd yn 2003 – beth fydd yn newid?
(Cyfeirnod: CSL310W) I unrhyw riant y mae eu hachos yn cael ei drosglwyddo i'r cynllun presennol

Sut mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth?
(Cyfeirnod: CSL311W) I bob rhiant

Sut gallaf dalu cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL305W) I rieni dibreswyl

Sut byddaf yn cael cynhaliaeth plant?
(Cyfeirnod: CSL314W) I rieni â gofal

Pa gamau gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cymryd os na fydd rhieni'n talu?
(Cyfeirnod: CSL306W) I bob rhiant

Geirfa

Amrywiad

Gall amrywiad ddigwydd pan ofynnwch i ni ystyried ffactorau eraill – fel costau ychwanegol sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl eu talu i ymweld â'r plentyn. Rydym yn defnyddio amrywiadau yn y cynllun presennol. Maent wedi disodli'r 'cyfarwyddiadau gwyro' yr oeddem yn arfer eu defnyddio yn yr hen gynllun. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau pwysig rhwng amrywiadau a chyfarwyddiadau gwyro. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cyfeirio at y rheolau ynghylch pa ffactorau y byddwn yn eu hystyried.

Asesiad cynhaliaeth dros dro (interim)

Os na fydd y rhiant dibreswyl yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio cynhaliaeth plant allan, gallwn wneud asesiad cynhaliaeth dros dro. Mae'r asesiad hwn yn golygu efallai y bydd rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar gyfradd uwch tan iddynt roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio'r swm cywir allan.

Budd-dal yn ymwneud ag incwm

Ym mhob un o daflenni'r CSA, gall budd-dal yn ymwneud ag incwm olygu Cymhorthdal Incwm, Lwfans ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

Budd-dal Plant

Taliad rheolaidd a wneir i unrhyw un sy'n magu plant. Fe'i telir am bob plentyn sydd:

- o dan 16 oed
- o dan 19 oed (dan 20 oed mewn rhai achosion) ac sydd mewn addysg llawn amser yn dilyn cwrs nad yw'n uwch na Safon Uwch neu safon gyfatebol neu yn dilyn rhaglen a ariennir gan y Llywodraeth, neu
- yn 16 neu 17 mlwydd oed ac sydd newydd adael yr ysgol ac wedi cofrestru ar gyfer gwaith neu hyfforddiant gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd neu Gyrfa Cymru neu rywbeth tebyg.

Cyfarwyddiadau gwyro

Rydym yn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylid ei dalu drwy ddefnyddio cyfrifiad safonol. O dan yr hen gynllun, roedd cyfarwyddiadau gwyro yn caniatáu i ni ystyried rhai amgylchiadau eraill wrth weithio cynhaliaeth plant allan, a newid y swm i'w dalu ar y sail honno. O dan y cynllun presennol, nid yw cyfarwyddiadau gwyro yn bodoli ond caiff nifer o'r un amgylchiadau eu cwmpasu gan 'amrywiadau'.

Cynhaliaeth plant

Arian a delir gan y rhiant dibreswyl i'r rhiant â gofal i helpu i dalu am gostau byw eu plentyn o ddydd i ddydd.

Incwm wythnosol net

Swm yr incwm (cyflog fel arfer) sy'n weddill ar ôl tynnu pethau fel treth incwm, Yswiriant Gwladol a thaliadau i mewn i gynllun pensiwn. Gall bonysau ac unrhyw gomisiwn hefyd gyfrif fel cyflog. Fel arfer nid ydym yn cyfrif pethau fel difidendau a delir i gyfarwyddwr cwmni cyfyngedig, oni fydd y rhiant â gofal yn gofyn i ni eu hystyried.

Rydym yn cyfrif Credydau Treth Gwaith fel incwm os yw enillion y **rhiant dibreswyl** yn uwch nag enillion eu partner. Os yw enillion y rhiant dibreswyl a'u partner yr un fath, byddwn yn cynnwys hanner y Credyd Treth Gwaith yn y cyfrifiad cynhaliaeth plant. Ni fyddwn yn ystyried Credyd Treth Gwaith fel incwm os yw enillion y rhiant dibreswyl yn llai na rhai eu partner.

Penderfyniad cynhaliaeth ddiffyg

Os na fydd y rhiant dibreswyl yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio cynhaliaeth plant allan, gallwn wneud penderfyniad cynhaliaeth diffyg. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar 'gyfradd diffyg' tan iddynt roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom. Mae penderfyniad cynhaliaeth diffyg yn disodli'r asesiadau cynhaliaeth dros dro, a ddefnyddiwyd gennym yn yr hen gynllun.

Plentyn

At ddibenion cynhaliaeth plant, mae plentyn yn golygu unrhyw un sydd o dan 16 oed, neu rywun sydd rhwng 16 a 19 oed:

- sydd ddim nawr, nac erioed wedi bod yn briod neu mewn perthynas sifil, ac
- sydd mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Fodd bynnag, os yw budd-dal plant yn dal i gael ei dalu, gall rhywun o dan 19 oed gael eu hystyried fel plentyn at ddibenion cynhaliaeth plant hyd yn oed os ydynt mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Rhannu gofal

Mae rhannu gofal yn cyfeirio at sefyllfa lle mae plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl am o leiaf un noson yr wythnos ar gyfartaledd, neu eu bod yn treulio hanner eu hamser gyda'r rhieni yn gyfartal. Yn y cynllun presennol, os bydd y rhiant dibreswyl yn rhannu'r gofal, gallwn ostwng swm y gynhaliaeth plant sy'n rhaid iddynt ei dalu.

Rhiant â gofal

Y rhiant neu'r gofalwr sy'n byw gyda'r plentyn fel arfer ac sydd felly yn talu am y rhan fwyaf o gostau byw y plentyn o ddydd i ddydd. Mewn rhai achosion gall fod yn nain, taid, gwarcheidwad neu'n aelod arall o'r teulu – sef y 'person â gofal', yn hytrach na'r rhiant â gofal.

Rhiant dibreswyl

Y rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn fel arfer.

Mae'r wybodaeth o daflenni'r CSA hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille ac ar dâp sain.

Gallwch gael unrhyw o'n taflenni:

- trwy ffonio **0845 713 3133** (mae'r llinell ar agor o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn)
- trwy ffonio'r Uned Gymraeg ar **0845 713 8091** (mae'r llinell ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
- trwy ddefnyddio ffôn testun ar **0845 713 8924**, neu
- o'n gwefan sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**

Ble rhoddir rhifau ffôn testun, mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd cyngor ar bopeth. Nid yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

CSL310W
Ebrill 2010
(h) Asiantaeth Cynnal Plant
Gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiwn Trefnu
a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.
ISBN: 978-1-84695-952-3
Cyf COI: 296094